CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
WELSH FOR ADULTS CENTRE NORTH WALES

PANEL DARPARWYR GOGLEDD CYMRU

Cynhaliwyd cyfarfod o Banel y Darparwyr ddydd Gwener, Mawrth 9 am 1.30yp yn Ystafell Madog, Coleg Llandrillo Cymru.

Presennol: Elwyn Hughes (Cadeirydd, Prifysgol Cymru, Bangor); Jina Gwyrfai (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Jim O'Rourke (Nant Gwrtheyrn); Ann Hughes (Coleg Menai); Sharon Owen (Coleg Menai); Llinos Price (Coleg Harlech/WEA); Catrin Jones (Coleg Meirion Dwyfor); Non Edwards (Coleg Glannau Dyfrdwy); Jenni Harris (Coleg Iâl); Dona Padan (Coleg Llysfasi); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); Gwenan Owain (Coleg Llysfasi); Pam Evans-Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Frances Jones (Popeth Cymraeg); Howard Edwards (Popeth Cymraeg); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Haydn Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Iwan Davies (Ysgrifennydd, Canolfan Cymraeg i Oedolion); Dafydd Rhys (Coleg Harlech/WEA)

Ymddiheuriadau: Trefor Fôn Owen (Coleg Harlech/WEA); Michelle Murphy (NEWI); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg); Myfi Brier (Coleg Llysfasi); Ieuan Davies (Coleg Llandrillo Cymru); Shirley Williams (Canolfan Cymraeg i Oedolion, Canolbarth)

		Gweithredu
1.	**CROESO AC YMDDIHEURIADAU** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.	
2.	**COFNODION CYFARFOD 24 TACHWEDD A MATERION YN CODI** a) Cadarnhawyd fod y cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Tachwedd 2006 yn gywir. b) Nid yw'r grwpiau ardal yn mynd i weithio cystal fel oedd rhywun yn gweld. ***Penderfynwyd cynnal swyddogaeth y grwpiau hyn o fewn Panel y Darparwyr gan gynnal un cyfarfod y flwyddyn lle bydd Bwrdd yr Iaith, Mentrau Iaith a mudiadau perthnasol eraill yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod y Panel Darparwyr.*** c) Bydd angen cynrychiolydd o'r Panel Darparwyr ar y Grŵp Strategol - ***cytunwyd mai Elwyn Hughes fydd yn cynrychioli ar ran y Panel Darparwyr.***	**EH** **EH**

3. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

a) Rhoddwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Cyfarwyddwr yn nodi bod project yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a bydd Canolfan rhanbarth y Gogledd yn arbenigo ar Cwricwlwm Dwys.

b) ***Bydd y Ganolfan yn cytundebu gyda'r darparwyr o'r 1af Awst 2007*** – disgwyl am ragor o arweiniad gan Llywodraeth Cynulliad Cymru. **IG**

c) ***Bydd 10% ychwanegol yn cael ei ddyrannu o bres TWF*** **IG**

ch) Eglurodd bod Bwrdd yr Iaith wedi rhoi'r gorau i gyllido CYD, bydd y cyllid nawr yn mynd at y 6 canolfan.

Mae'r Ganolfan wedi gwneud cais am grant 2007/08 i'r Bwrdd yr Iaith, cawn wybod cyn diwedd y mis os bu'r cais yn llwyddiannus. **IG**

d) Beaufort Research wedi bod yn llwyddiannus efo'i tendr i ymchwilio i mewn i faterion ansoddol a meintiol o'r ddarpariaeth, mae hwn yn broject ar y cyd gyda'r Ganolfan yn y Canolbarth.

4. STRWYTHUR YR IS-BWYLLGORAU

Bydd y Panel Darparwyr yn brif fforwm ac yn atebol i'r Grŵp Strategol.

Bydd Is-grŵp Ansawdd yn cael ei greu - ***1 cynrychiolydd o bob darparwr.***

Efallai bydd Is-grŵp Cwricwlwm yn cael ei greu a fydd yn atebol i'r Panel Darparwyr yn amodol ar ddatblygiadau gyda 3a) uchod.

Cytunwyd gan y darparwyr ein bod yn mynd ymlaen gyda'r strwythur hwn.

5. DARPARIAETH 2006-07 A 2007-08

a) Eglurodd PEH a JG eu bod yn mapio cyrsiau gan y darparwyr ar y funud.

Nid yw PEH wedi derbyn y wybodaeth i gyd yn ôl gan y darparwyr. ***Gofynnir i bob darparwr gwblhau'r tabl ar gyfer 2007/08.*** **Darparwyr**

Eglurodd JG ei bod wedi ymweld â'r darparwyr, mae angen y manylion i mewn cyn gynted â phosib.

Mynegwyd pryder gan rai o'r darparwyr mai efallai dim ond copi drafft o'r cyrsiau a gynigir sydd ar gael. Bydd hyn yn dderbyniol gan y Ganolfan.

b) Nodwyd bod cylchoedd pob darparwr mor wahanol yw gilydd, ***bydd angen i JG a PEH drafod y sefyllfa gyda phob darparwr.*** Nodwyd bod mannau gweigion yn y ddarpariaeth yn Ne-orllewin Môn, Fflint a Wrecsam a bydd hyn yn gyfle da i ddatblygu a chynnal cyfarfodydd i weld beth yw'r angen yn lleol. **JG a PEH**

c) Bydd cyfle i gydweithio â Chanolfan Morgannwg efo Cymraeg i Rieni a chydweithio gyda Chanolfan Gwent efo Cymraeg yn y Gweithle.

ch) Mi fydd angen i'r darparwyr wybod pa ddata sydd ei angen - disgwyl arweiniad gan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

d) Mynegodd NE bod Coleg Glannau Dyfrdwy eisiau cynnig cwrs

Cymraeg blwyddyn 4 parhad, ond bod ansicrwydd am y drefn o pryd ddylid cyfeirio dysgwyr i'r ffrwd ddwys. Nodwyd fod cyndynrwydd ymysg dysgwyr i newid tiwtor a lleoliad. Mynegodd IG fod angen ysytyried beth sydd orau i ddatblygiad y dysgwyr a bod modd trafod achosion unigol fel hyn hefo'r Ganolfan. **Darparwyr**

dd) ***Atgoffwyd y darparwyr ei bod yn ofynnol i enwi pob cwrs yn unol â lefelau CBAC.*** Bydd yn rhaid cysoni sut mae darparwyr yn enwi cyrsiau - darparwyr i anfon rhaglen ddrafft o'r cyrsiau i'r Ganolfan.

6. ASESU AC ACHREDU

a) Mae cynlluniau gan CBAC i newid y drefn achredu, bydd hyn yn debyg i drefn RhCA Cymru, ond yn canolbwyntio ar faes llafur yr arholiadau. Mae CBAC yn rhedeg cynllun peilot gyda Prifysgol Abertawe.

b) Mae gan RhCA Cymru nifer o unedau newydd ar gael ar bob lefel, sylwer bod nifer o'r unedau wedi cael eu hail enwi.

c) Hysbyseb swyddog dros-dro i greu tasgau i gyd-fynd a'r unedau newydd a gynigir gan RhCA Cymru wedi ymddangos yn ddiweddar.

7. CYHOEDDUSRWYDD A MARCHNATA

a) Y brif neges at y darparwyr yw dal i farchnata eu hunain, ond mi fydd y Ganolfan hefyd yn marchnata'r cyrsiau hefyd trwy gyfrwng gwefan y Ganolfan, y cyfryngau ac efallai hysbysebu mor eang â phosib o amgylch y rhanbarth gan ddefnyddio'r Hysbys***. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr Data yn rhoi arddangosfa o'r wefan yn y cyfarfod nesaf.*** **IG**

b) Cynigwyd y syniad gan y darparwyr i hysbysebu yn y papurau lleo, fesul ardal, ar draws y rhanbarth ac efallai rhannu'r gost rhwng y darparwyr ar Ganolfan.

c) Y Ganolfan fydd y cyd-lynu'r ymgyrch farchnata, bydd y Ganolfan yn falch o dderbyn unrhyw awgrymiadau pellach gan y darparwyr.

8. HYFFORDDIANT

Paratowyd adroddiad gan HH, Swyddog Hyfforddi ac Ansawdd, eglurodd bod y Ganolfan yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Aeth HH drwy'r adroddiad mewn manylder, gan nodi'r cynllunio i wario arian 2006/07 cyn diwedd Mawrth 2007. Bydd yr wythnos Dadawgrymeg yn cael ei symud ymlaen i wythnos olaf Mawrth 2007. Sesiwn adeiladu tîm wedi ei ail-drefnu ar gyfer dyddiad arall, ond yn anffodus mae'r pres yma wedi ei golli. Cynhadledd Hyfforddi, Llanberis yn ystod Chwefror 2007 wedi profi i fod yn llwyddiant, cafwyd adborth rhagorol ar y ffurflenni gwerthuso. Mae taith yn cael ei threfnu i wlad y Basg lle bydd cyfle i diwtoriaid wneud gwaith ymchwil i wahanol feysydd. 40 o holiaduron staff heb eu derbyn yn ôl, mae manylion 98% o diwtoriaid ar fasdata y Ganolfan, pwysleisiodd HH mai tiwtoriaid sydd ar y basdata a gaiff eu talu. Mae'n bur debyg y bydd cyllid ar gael i gyllido'r cymhwyster cenedlaethol.

Bydd cynhadledd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei gynnal Chwefror 2008. Bydd sesiynau datblygiad proffesiynol yn cael eu cynnig i diwtoriaid. Mae'r cymhwyster cenedlaethol yn rhan bwysig o strategaeth i symud ymlaen a gobeithio y bydd yn dechrau yn Hydref 2007, 10 fydd yr uchafswm a fydd yn cael ymrestru bob blwyddyn, mae'r cymhwyster wedi ei ddatblygu gan Brifysgol Caerdydd. Bydd copi o'r Cynllun Hyfforddi yn mynd ar wefan y Ganolfan yn fuan. Bydd modiwl Cymraeg i Oedolion yn cael ei gynnig gan Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Bangor ac os yn llwyddiannus y gobaith bydd cynnig y modiwl yn yr Ysgol Addysg gyda'r bwriad o ddenu myfyrwyr ifanc brwdfrydig. Byddwn yn parhau i dalu tiwtoriaid £20.00 yr awr, £70.00 y diwrnod, £250.00 yr wythnos, ni fyddwn yn talu tiwtoriaid llawn amser ond yn hytrach yn digolledu'r cyflogwr am unrhyw gostau cyflenwi. Cytunwyd hyn gan y Panel Darparwyr.

9. SICRHAU ANSAWDD

Bydd pob darparwr yn derbyn adroddiad erbyn 15fed Mawrth 2007, bydd angen sylwadau yn ôl erbyn 22ain Mawrth 2007 er mwyn cael sêl bendith gan y Grŵp Strategol. Mynegodd bod nifer o gryfderau a gwendidau ar draws y rhanbarth, rhaid rhannu ymarfer da. **Darparwyr**

10. DATA A THARGEDAU

Nodwyd bod y Ganolfan dal i ddisgwyl data gan rai o'r darparwyr. ***Bydd angen y data cyn gynted â phosib gan yr holl ddarparwyr.*** **Darparwyr**

11. UNRHYW FATER ARALL

Hysbyswyd y darparwyr am nifer o ddigwyddiadau oedd ar gael i ddysgwyr ar draws y rhanbarth.
Os oes unrhyw newyddion neu weithgareddau gan y darparwyr gofynnwyd iddynt hysbysu'r Ganolfan.

DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF

Cyfarfod Panel Darparwyr, pnawn Mercher, 13eg Mehefin 2007 yng Ngholeg Llandrillo Cymru am 1.30yp.

Cyfarfod Is-grŵp Ansawdd, pnawn Mercher, 2il Mai 2007 yng Ngholeg Llandrillo Cymru am 1.30yp. **1 CYNRYCHIOLYDD O BOB DARPARWR AR GYFER YR IS-GRŴP ANSAWDD.**